# CYNGOR CYMUNED LLANLLECHID
# LLANLLECHID COMMUNITY COUNCIL


| | |
|---|---|
| Clerc | 26 Stryd Fawr |
| *Clerk* | Bethesda |
| **Caroline Jones** | Gwynedd |
| 01248 602131 | LL57 3AE |
| CyngorLlanllechid@ogwen.org | |


**Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol a gynhaliwyd yng Nghapel Bethlehem ar nos Iau 13fed o Hydref 2022 am 1900 yh**

**1. PRESENNOL:**

**Ward Llanllechid Isaf**
Y Cynghorydd Wyn Bowen Harries
Y Cynghorydd Alun Thomas
Y Cynghorydd Lowri Evans
Y Cynghorydd Geraint Hughes
Y Cynghorydd Evan Jones
Y Cynghorydd Robin Williams
Y Cynghorydd Megan Tomos

**Ward Llanllechid Uchaf**
Y Cynghorydd Jên Morris
Y Cynghorydd Dafydd K Jones
Y Cynghorydd Kevin Williams

**Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd Y Cyng. Wyn Bowen Harries.**

**2. Ymddiheuriadau**

Y Cynghorydd Jên Morris
Meleri Davies Partneriaeth Ogwen
Y Cynghorydd Cyngor Sir Dafydd Meurig

**3. Cofnodion**

Penderfynwyd derbyn a chadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar yr 8fed o Fedi 2022.

**4. Materion yn codi o'r cofnodion**

**Twll yn y ffordd ger Wern Bach –** Does dim cynnydd wedi ei wneud gyda'r cynllun yma. Y Cyng. Dafydd Meurig wedi ailgysylltu gyda Cyngor Gwynedd.
**Cysylltiad Fibreoptig –**Ymateb cyffredinol wedi ei dderbyn gan Lee Waters AS a Sian Gwenllian AS. Y Cyng. Megan Tomos wedi ail-gysylltu yn gofyn i gael cyfarfod. Dim diweddariad.

**Arwyddion Maes y Groes –** Dim arwyddion wedi ei osod hyd yn hyn. Y Clerc wedi ebostio Ian Morgan, Cyngor Gwynedd i drefnu ymweliad safle gyda Cyng. Evan Jones. Dim ymateb hyd yn hyn. Y Clerc wedi cysylltu gyda Y Cyng. Dafydd Meurig. Dim diweddariad.

**Datblygiadau Bronnydd Isaf –** Dim diweddariad, nodwyd fod yr adran gorfodaeth yn hynod o brysur ar hyn o bryd a dim ond 2 aelod o staff yn delio gyda'r holl achosion yng Ngwynedd. Y Cyng. Dafydd Meurig wedi ailgysylltu gyda Cyngor Gwynedd.

**Ffordd Llwyn Bleddyn – cais am ddrych** –nid yw'r Cyngor yn argymell rhoi drychau i helpu plant groesi'r priffyrdd yn y safle yma. (ymateb llawn yn y gohebiaeth) Y Clerc i gysylltu gyda Cyngor Gwynedd ynglyn a trefniadau i blant croesi y ffordd o Gae Rhosydd.

**Pant Bowls –** Ebost wedi ei dderbyn gan Cyngor Gwynedd. Maent yn trefnu cyfarfod gyda contractwr (G-Mec) i ddangos y gwaith iddynt. Gyda bwriad o gyflawni'r gwaith cyn tymor gwlyb y gaeaf. Dim diweddariad. Y Cyng. Dafydd Meurig wedi ailgysylltu gyda Cyngor Gwynedd

**Bryn Derwas –** Y Clerc wedi anfon sylwadau'r Cyng. Evan Jones ymlaen i Gyngor Gwynedd. Cyngor Gwynedd am wneud asesiad o'r lleoliad a chadarnhau os byddent yn darparu bin newydd yma. Dim diweddariad

**Llwybr Capel Gilfach fyny at Bronydd –** Wedi ei thorri.

**Prosiect Partneriaeth y Carneddau –** Dim diweddariad. Y Clerc i wahodd Beca Roberts ac Abbie Edwards i gyfarfod Mis Tachwedd.

**Gwaith adnewyddu ar y corlannau –** Dewi Roberts wedi cyfarfod gyda ffermwyr ar y mynydd i weld y Corlannau, ac hefyd wedi bod mewn trafodaeth gyda Abbie Edwards (Partneriaeth y Carneddau). Maent yn obeithiol cael arian i wneud y gwaith. Fydd hyn yn debygol o ddigwydd Gwanwyn nesaf.

**Cae Peldroed Talybont –** Ar yr agenda.

**Llwyn Bedw –** Adroddwyd fod rhifau 12 a 13 Llwyn Bedw o fewn ffin plwyf Bethesda ac felly yn talu treth y plwyf hwn, ond fod gweddill y stad ym mhlwyf Llanllechid. Y Clerc wedi cysylltu gyda Chyngor Gwynedd am gael gwybodaeth am y sefyllfa a beth yw'r camau i newid. Dim ymateb hyd yn hyn.

**Ysgol Llanllechid** Ebost wedi ei yrru at Bennaeth Cyngor Sir Gwynedd, Pennaeth Adran Addysg Cyngor Sir Gwynedd, Cyngor Cymuned Bethesda, Cynghorwyr Paul Rowlinson a Dafydd Meurig**.** Derbynwyd ymateb gan Uwch Reolwr Gwasanaeth Adnoddau Addysg, Cyngor Gwynedd yn unig hyd yn hyn (gweler y gohebiaeth).

**Bin Baw Ci Sgwâr Llanllechid** - Cyngor Gwynedd wedi symud y bin.

**Cyfraddau treth Llanllechid** - Derbynwyd ymateb gan Cyngor Gwynedd. Y Cyng Geraint Hughes wedi drafftio ymateb, Y Clerc wedi ei yrru i Gyngor Gwynedd.

**Llwybr wrth ochr Eglwys Llanllechid** Y Clerc i drefnu torri y llwybr.

**Tyllau yn y ffordd ger Fferm Ty'n Hendre** Y Clerc wedi cysylltu gyda Cyngor Gwynedd. Dim diweddariad.

**Safle bws Talybont -** Ymholiad gan Y Cyng. Wyn Bowen Harries am y phosibilrwydd o drefnu artisiaeth ysgolion lleol yn y safle. Y Clerc i wneud ymholiadau gyda Phartneriaeth Ogwen.

**Llwyn Bedw -** Derbynwyd gohebiaeth gan drigolion Llwyn Bedw yn codi pryderon am y datblygiadau. Penderfynwyd yng ngyfarfod Mis Medi i ysgrifennu llythyr i ddiolch iddynt am y gwybodaeth ac am gadw'r cyngor yn wybodus, unwaith mae'r cyfarfod wedi cael ei gynnal. Dim diweddariad.

**5. Taliadau**

Y Clerc i gysylltu gyda Cyngor Gwynedd i gael mwy o wybodaeth am y costau etholiad. Ni awdurdodwyd ar hyn o bryd.

| | | |
|---|---|---|
| Cyngor Gwynedd | Costau etholiad | £214 |

Awdurdodwyd y taliadau canlynol

| | | |
|---|---|---|
| Julian Johnson | Torri gwair Medi 2022 | £235 |
| Partneriaeth Ogwen | Stamps – Cyfrif Mynydd | £34.20 |
| Tir a Coed | Torri Llwybrau | £1200 |
| Tir a Coed | Torri Eglwys Llan | £600 |
| Partneriaeth Ogwen | Gwasanaeth clercio/datblygu cymunedol 10/22 | £3317.14 |
| Partneriaeth Ogwen | Cyfraniad at costau Llyfrgell | £223.40 |

**6. Y Mynydd**

**6.1** Holl taliadau Dyraniad wedi ei dderbyn.
**6.2** Y Clerc wedi llythyru Gethin Evans yn croesawu cydweithriad ac am gynnwys y Cyngor yn y broses.

**7. Cae Chwarae Talybont**

**7.1** Y Cyng. Alun Thomas yn chwilio am brisiau 'container' i gadw offer. Dim diweddariad.
**7.2** Y Cyng. Alun Thomas wedi cael pris am beiriant torri gwair - oddeutu £3000. Dim diweddariad.
**7.3** Nodwyd y Cyng. Kevin Williams ar ran y Cyng. Evan Jones, ei fod wedi awgrymu y gellid newid ffin y cae pêl-droed i ganiatáu mwy o leoedd parcio. Y Cyng. Alun Thomas am drafod hyn ymhellach gyda Stad Penrhyn. Dim diweddariad. Cyflwynwyd deeds y Cae Chwarae. Cyfarfod wedi ei threfnu gan Y Cyng Evan Jones erbyn Dydd Mawrth 18fed o Hydref.

**8. Adroddiad Cyllid**

Paratowyd adroddiadau y Cyfrifon a'i cyflwyno i'r Cynghorwyr.

Y Clerc i drefnu Cyfarfod Is-Bwyllgor Cyllid ym Mis Tachwedd.

**9. Gohebiaeth**
Cyflwynwyd y canlynol

**9.1 Ymgynghoriad Cyhoeddus, ardaloedd cadwraeth** – Cynghorwyr i wneud yn unigol.
**9.2 Urdd Gobaith Cymru Cais am rhodd**- ohirio tan Mis Chwefror
**9.3 Ramblers Cymru Cais am rhodd**- ohirio tan Mis Chwefror

**10. Adroddiadau gan Gynrychiolwyr**

**10.1 Llyn Goch –** cafwyd adroddiad gan Y Cyng. Kevin o drafodaeth y cafwyd gyda Dewi Roberts yn Llyn Goch.
**10.2 Ardal Ni –** cafwyd adroddiad gan Y Cyng. Lowri Evans o gyflwyniad Ardal Ni a gynhelir yn Clwb Rygbi Bethesda.
**10.3 Lon Giatws –** adroddwyd Y Cyng. Geraint Hughes fod anhawsterau ar yr A55 wedi achosi grym draferthion traffig ar Lôn Giatws. Gweler cyfathrebiad yn y gohhebiaeth.

**11. Ceisiadau a phenderfyniadau Cynllunio**

**C20/0504/21/LL**
Tir ar Fferm Corbri, Llanllechid
Codi tŷ fforddiadwy un llawr, mynedfa, llecynnau parcio, tanc septig ynghyd â thanc cynaeafu dŵr
**Penderfyniad:** Ar y gweill.

**C21/0078/21/CC**
Ogwen Bank, Bethesda
Torri a thocio coed sy'n destun gorchymyn gwarchod coed 3/TPO/GCC/17 (ail-gyflwyniad a diweddariad o gais rhif C20/0154/21/CC)
**Penderfyniad:** Ar y gweill.

**C21/0099/21/CC**
Ogwen Bank, Bethesda
Mesurau i ddiogelu coed a gorchymyn coed arnynt yn ystod gwaith i uwchraddio'r parc carafanau
**Penderfyniad:** Ar y gweill.

**NP3/21/LB61D**
Tan y Garth Cottage, Gerlan, Bethesda
Dymchwel Penty ac adeiladu estyniad unllawr ynghyd a gwaith mewnol mân. Cais Adeilad Rhestredig.
**Penderfyniad:** Ar y gweill
*Nodwyd for Y Cyng. Jên Morris wedi datgan diddordeb.*

**NP3/21/LB61C**
Tan y Garth Cottage, Gerlan, Bethesda
Dymchwel Penty ac adeiladu estyniad unllawr.
**Penderfyniad:** Ar y gweill
*Nodwyd for Y Cyng. Jên Morris wedi datgan diddordeb.*

**NP3/21/46F**
2 Tai'r Cae, Carneddi, Bethesda
Trosi a newid defnydd adeilad allanol gwledig i uned gwyliau hunanarlwyo tymor byr. Gosod offer trin carthion a chreu maes parcio i gerbydau.
**Penderfyniad:** Ar y gweill

**C22/0628/21/LL**
1 Maes y Groes, Talybont, Bangor
Dymchwel sied a modurdy presennol i adeiladu clinig asgwrn cefn deulawr ffrâm bren ar yr ôl troed presennol.
**Penderfyniad:** Ar y gweill

**Ceisiadau Cynllunio**
Dim ceisiadau newydd wedi ei dderbyn

## 12. Materion Brys

**12.1 Difrod i safle bws Talybont –** Y Clerc i wneud ymholiadau ynglyn a phwy sydd gyda cyfrifoldeb am y safle.
**12.2 Adroddiad Cyngor Sir –** Y Clerc i wahodd Y Cyng, Dafydd Meurig i'r cyfarfod nesaf. Os nad yw hi'n bosib iddo fynychu y cyfarfod, y Cyng Dafydd Meurig i baratoi adroddiad.
**12.3 Cocos Traeth Lafan –** adroddwyd fod dim cyfleusterau toiled i'r helwyr. Y Clerc i gysylltu gyda yr asiantaethau gyfrifol.
**12.4 Chwarel y Bryn –** adroddwyd fod dwr yn llifo i lawr y ffordd. Y Clerc i gysylltu gyda Cyngor Gwynedd.

## 13. Adroddiad Llais Ogwan –

Adroddiad i gynnwys fod yr Is – bwyllgor Mynydd wedi cefnogi ymgais record byd Elfed Jackson. Hefyd I Longyfarch Elfed. (Y Cyng Kevin Williams I gysylltu gyda Elfed Jackson am fwy o wybodaeth)
Hefyd, I gynnwys fod datblygiadau Cae Chwarae Talybont yn Parhau.